

**2018 Rhif (Cy. )**

**2018 No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland),  
Caergybi, Ynys Môn i fan i'r  
dwyrain o Gyffordd 11 (Cyfnewidfa  
Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd)  
(Cyfyngiadau a Gwaharddiad  
Traffig Dros Dro) 2018

The A55 Trunk Road (Junction 1  
(Kingsland Roundabout),  
Holyhead, Isle of Anglesey to east  
of Junction 11 (Llys y Gwynt  
Interchange), Bangor, Gwynedd)  
(Temporary Traffic Restrictions &  
Prohibition) Order 2018

*Gwnaed* 20 Rhagfyr 2018

*Made* 20 December 2018

*Yn dod i rym* 26 Rhagfyr 2018

*Coming into force* 26 December 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffordd neu gerllaw iddi yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road and because of the likelihood of a danger to the public on or near the road during periods of high winds.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn i fan i'r dwyrain o Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 26 Rhagfyr 2018.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 1 (Kingsland Roundabout), Holyhead, Isle of Anglesey to east of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibition) Order 2018 and it comes into force on 26 December 2018.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

## 2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 26 Rhagfyr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Caer i Fangor yr A55 a Chefnffordd Llundain i Gaerdybi yr A55;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 30 mya ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 mya ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 mya ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

## 2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor Trunk Road and the A55 London to Holyhead Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 26 December 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

## Restrictions and Prohibition

3. No person may, during the works period or during periods of high winds, drive any vehicle at a speed exceeding 30 mph on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period or during periods of high winds, drive any vehicle at a speed exceeding 40 mph on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order.

5. No person may, during the works period or during periods of high winds, drive any vehicle at a speed exceeding 50 mph on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

7.—(1) Nid yw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys.

### Cyfnod Para's Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

20 Rhagfyr 2018

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

6. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order.

### Application

7.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### Suspension

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road described in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3, 4 and 5 apply.

### Duration of this Order

9. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

20 December 2018

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darnau o brif gerbytyffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin a holl ffyrdd ymuno ac ymadael y gefnffordd sy'n ymestyn o Gyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn hyd at bwynt 800 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd.

## SCHEDULE

The lengths of the main eastbound and westbound carriageways and all slip roads of the trunk road that extend from Junction 1 (Kingsland Roundabout), Holyhead, Isle of Anglesey to a point 800 metres east of the centre-point of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55  
(CYFFORDD 1 (CYLCHFAN KINGSLAND),  
CAERGYBI, YNYS MÔN I FAN I'R DWYRAIN  
O GYFFORDD 11 (CYFNEWIDFA LLYS Y  
GWYNT), BANGOR, GWYNEDD)  
(CYFYNGIADAU A GWAHARDDIAD TRAFFIG  
DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn dros dro er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd. Mae hefyd yn ofynnol, fel mesur wrth gefn, i ddiogelu defnyddwyr y ffordd ar yr A55 yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion ar Bont Britannia.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfynau cyflymder o 30 mya, 40 mya a/neu 50 mya ar y darnau o brif gerbyffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin a ffyrdd ymuno ac ymadael yr A55 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Kingsland, Caergybi, Ynys Môn hyd at bwynt 800 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd; a

ii, gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir uchod. Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei chynnwys rhag ofn y bydd digwyddiadau nad oedd modd eu rhag-weld. Pe bai amgylchiadau yn cyfiawnhau'r gwaharddiadau hyn, byddai hyn yn digwydd, pryd bynnag y byddai'n bosibl, yn ystod oriau allfrig yn ystod y nos er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr y ffordd. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw, pan fo'n bosibl, yn dangos y cyfnodau hynny pan fydd y ffordd ar gau a bydd hyn yn para am gyfnodau byr. Ni fydd angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 26 Rhagfyr 2018 ac y byddant yn weithredol yn ysbeidiol, fel sy'n ofynnol a phan godir arwyddion yn eu cylch, am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 1  
(KINGSLAND ROUNDABOUT), HOLYHEAD,  
ISLE OF ANGLESEY TO EAST OF JUNCTION  
11 (LLYS Y GWYNT INTERCHANGE),  
BANGOR, GWYNEDD) (TEMPORARY  
TRAFFIC RESTRICTIONS & PROHIBITION)  
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The temporary Order is required to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 1 (Kingsland Roundabout), Holyhead, Anglesey and Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd. It is also required, as a contingency, to safeguard road users on the A55 during periods of high winds on the Britannia Bridge.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose 30 mph, 40 mph and/or 50 mph speed limits on the lengths of the main eastbound and westbound carriageways and slip roads of the A55 that extend from its junction with Kingsland Roundabout, Holyhead, Isle of Anglesey to a point 800 metres east of the centre-point of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd; and

ii. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the A55 described above. This provision is included as a contingency against unforeseen events. Should circumstances warrant these prohibitions this would, wherever possible, be during off peak night time hours so that minimum disruption is caused. Any such closures will, whenever possible, be indicated by advance traffic signs and will be for short periods. No diversionary routes are necessary.

The temporary restrictions and prohibition are expected to come into force at 00:01 hours on 26 December 2018 and will operate intermittently, as required and when signed, for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be  
obtained from Orders Branch, Transport,  
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff  
CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government